


# ARWEINIAD I DENANTIAID YNGHYLCH ASBESTOS



Diben yr arweiniad hwn yw rhoi gwybodaeth ichi am ddeunyddiau sydd ag asbestos ynddynt a all fod yn eich cartref. Bydd yn egluro beth yw asbestos, lle y deuir o hyd iddo gan amlaf, a pha gamau y bydd angen efallai ichi eu cymryd os ydych yn bwriadu ymgymryd â gwelliannau yn eich cartref.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau i reoli Deunyddiau sydd ag Asbestos ynddynt. Gallwch wneud cais am gopi o'r polisi hwn, neu gael golwg arno ar-lein, [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)

I gael rhagor o wybodaeth, cyngor neu arweiniad, ffoniwch 01267 234567 neu anfonwch

e-bost at [housingservices@carmarthenshire.gov.uk](mailto:housingservices@carmarthenshire.gov.uk)

## A oes asbestos yn fy nghartref?

Ceir asbestos mewn llawer o gartrefi ac adeiladau, ac mae'n **gwbl ddiogel os nad oes neb yn tarfu arno ac os yw mewn cyflwr da**. Mae'r canlynol ymhlith y manau lle mae'n bosibl y deuir o hyd iddo'n gyffredin yn y cartref:

- Waliau a nenfydau a orchuddiwyd â haen weadog, megis Artex
- Teils llawr a gludydd bitwmen
- Toeon siediau a thai allan
- Estyll bondo
- Padiu bitwmen ar waelod unedau'r sinc a'r bwrdd sychu/diferu
- Tanciau dwr oer
- Paneli'r bath
- Pibelli carthion
- Blychau o amgylch pibelli carthion
- Cyfarpar dŵr glaw, megis landeri a pheipiau
- Gasgedi rhaff o amgylch y lle tân

## Cartrefi Tenatiadd Cyngor

Cynnal arolwg yw'r unig ffordd o ddod o hyd i'r holl asbestos sydd mewn eiddo. Bellach mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael cyfle i gynnal arolwg o'r rhan fwyaf o'i stoc dai. Efallai i'r arolwg hwn gael ei gynnal cyn i unrhyw welliannau gael eu gwneud i'ch cartref fel rhan o Safon Tai Sir Gaerfyrddin.

Os canfuwyd bod asbestos yn eich cartref, byddwn wedi llunio cofnod y byddwn yn ei ddefnyddio i roi gwybod i gontractwyr neu staff a fydd efallai'n gorfod ymgymryd â gwaith cynnal a chadw neu wella yn eich cartref.

Os yw'r asbestos mewn cyflwr da, gan amlaf gadael llonydd iddo yw'r peth mwyaf diogel i'w wneud. Dan amgylchiadau eraill, efallai y trefnwn i gael gwared arno'n ddiogel.

## Beth yw asbestos?

Mwyn naturiol a luniwyd o ffibrau bach yw asbestos ac yn y gorffennol fe'i defnyddiwyd i wneud llawer o ddeunyddiau adeiladu a nwyddau traul.

Er y gwyddom fod chwe math o asbestos, asbestos Crysotil (gwyn), asbestos Amosite (brown) ac asbestos Crocidolit (glas) oedd y rhai a ddefnyddid yn bennaf mewn deunyddiau adeiladu.

Mae asbestos yn dal yn gyffredin mewn llawer o gartrefi ond bellach ni chaiff ei ddefnyddio yn y prosesau adeiladu a gweithgynhyrchu, ac mae canllawiau llym iawn hefyd i sicrhau y caiff ei reoli'n ddiogel.

**Mae asbestos yn ddeunydd cwbl ddiogel os nad oes neb yn tarfu arno, un ai drwy gael gwared arno neu drwy wella cartrefi.**

Os yw'r asbestos wedi'i ddifrodi neu wedi'i dorri – er enghraifft, os ydych yn tynnu panel bath sy'n cynnwys asbestos, neu os ydych yn drilio drwy wal a orchuddiwyd ag Artex – efallai y bydd ffibrau asbestos mân yn cael eu rhyddhau i'r aer.

Gall y ffibrau hyn fod yn niweidiol os cânt eu hanadlu i mewn. Dyna pam mae canllawiau llym iawn i sicrhau bod Deunyddiau ag ynddynt Asbestos yn cael eu rheoli neu eu gwaredu'n ddiogel.



Os yw'r deunydd sydd ag asbestos ynddo mewn cyflwr da – er enghraifft, os yw wedi'i baentio neu ei selio. Os felly, gadael llonydd iddo yw'r peth mwyaf diogel i'w wneud.

Ond os ydych yn bwriadu gwneud gwelliannau yn y cartref mae'n bwysig ichi gysylltu â ni cyn gwneud hynny. Gallwn eich cyngori ynghylch pa gamau y bydd, o bosibl, yn angenrheidiol ichi eu cymryd. *Yn benodol, ni ddylech geisio cael gwared ar unrhyw ddeunydd amheus, na rhoi rhwbiad iddo, na'i drilio na'i lifio.*

Rydym yn sylweddoli nad ydych efallai'n gwybod sut i adnabod asbestos, felly cysylltu â ni cyn gwneud dim yw'r peth gorau bob amser. Yn ogystal, dylech gysylltu â ni os oes gennych unrhyw bryderon, neu os ydych yn amau y difrodwyd deunyddiau sydd, o bosibl, ag asbestos ynddynt.

**I gael rhagor o wybodaeth, cyngor neu arweiniad ffoniwch 0800 085 1 233 neu anfonwch neges e-bost at [housingservices@carmarthenshire.gov.uk](mailto:housingservices@carmarthenshire.gov.uk)**

**COFIWCH, PEIDIWCH Â THARFU AR UNRHYW DDEUNYDD YR YDYCH YN AMAU  
BOD YNDDO ASBESTOS NA CHEISIO CAEL GWARED AR Y DEUNYDD HWNNW.**